Cyllid & Tollau EM

Sut i gwblhau eich Ffurflen Dreth Fer

Yn cynnwys

- ‘Pwy all ddefnyddio’r Ffurflen Dreth Fer?’ ar dudalen 1
- ‘Pwy na all ddefnyddio’r Ffurflen Dreth Fer?’ ar dudalen 2

SA210 (2009) Cymraeg

Cynnwys

Cyflwyno ar-lein 1

Defnyddio'r Ffurflen Dreth Fer 1

Pwy all ddefnyddio'r Ffurflen Dreth Fer? 1

Pwy na all ddefnyddio'r Ffurflen Dreth Fer? 2

Os na allwch ddefnyddio'r Ffurflen Dreth Fer 2

Dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno 3

Cwblhau'r Ffurflen Dreth Fer 3

Os caiff eich Ffurflen Dreth ei chwblhau ar eich rhan gan rywun arall 3

Enillion cyfalaf 3

Incwm cyflogaeth 4

Cyflog o bob cyflogaeth 4
Treth a ddidynnwyd o'r ffigur ym mlwch 2.2 4
Buddiannau a threuliau trethadwy a gafwyd 4
Treuliau caniataol 5
Cyfeirnod treth TWE eich prif gyflogwr neu eich cyflogwr diwethaf 5

Incwm Hunangyflogaeth 6

Eich blwyddyn fusnes 6
Dyddiad cau eich llyfrau 6
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol 7
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 7
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 7
Trosiant 7
Treuliau caniataol at ddibenion treth 8
Lwfansau cyfalaf 8
Elw 11
Colled 11
Colledion busnes a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach 11
Didyniadau CIS a ddidynnwyd 11

Pensiynau'r DU a budd-daliadau'r Wladwriaeth a gafwyd 12

Pensiwn y wladwriaeth 12
Cyfanswm pensiynau a blwydd-daliadau ymddeol eraill 12
Treth a ddidynnwyd o'r ffigur ym mlwch 4.2 12
Cyfanswm budd-daliadau trethadwy eraill y wladwriaeth 12

Llog, difidendau a buddsoddiadau eraill y DU 13

Giltiau 13
Swm net a dalwyd gan fanc neu gymdeithas adeiladu ac ati ar ôl iddynt ddidynnu treth 13
Os cewch log y DU ac ati sydd heb ei drethu o gwbl 14
Difidendau cwmnïau 14

Eiddo yn y DU 14

Incwm 14
Eich cartref eich hun 14
Treuliau caniataol at ddibenion treth 14
Elw 15
Colled 15
Colledion o eiddo yn y DU a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach 15
Incwm arall y DU ar gyfer 2008-09 15

Rhodd Cymorth 15

Taliadau Rhodd Cymorth a wnaed yn y flwyddyn i 5 Ebrill 2009 16
Cyfanswm unrhyw daliadau Rhodd Cymorth 'unigol' 16

Cyfrannu at gynlluniau pensiwn cofrestredig neu gynlluniau pensiwn tramor 16

Terfynau rhyddhad 16
Taliadau a ddidynnwyd o'ch cyflog cyn ei drethu 17
Taliadau i gynlluniau pensiwn cofrestredig pan hawlir rhyddhad treth ar y gyfradd sylfaenol gan ddarparwr eich pensiwn – 'rhyddhad wrth y ffynhonnell' 17
Taliadau gros 17
Taliadau i gynllun pensiwn tramor 17

Lwfans Person Dall 18

Lwfans Pâr Priod 18

Gorffen eich Ffurflen Dreth 19

Canllaw bras i gyfrifo eich bil treth 21

Taflen Waith 22
Beth i'w dalu erbyn 31 Ionawr 2010 23

Os oes gennych gŵyn Tu mewn y clawr cefn

Sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch Tu mewn y clawr cefn

Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau, gan gynnwys arweiniad ar ffurf Braille, awdio ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni ar gael mewn print bras. Cysylltwch â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg os bydd angen y gwasanaethau hyn arnoch.

Ein bwriad yw gwneud cyflwyno eich Ffurflen Dreth yn hawdd. Dewiswch chi p'un a ydych am gyflwyno'r Ffurflen Dreth lawn ar-lein (cewch eich arwain at y rhannau sy'n berthnasol i chi) neu gwblhau'r Ffurflen Dreth Fer ar bapur.

Cyflwyno ar-lein

Defnyddiwch Hunanasesiad Ar-lein i gyflwyno eich Ffurflen Dreth. Mae'n syml i'w ddefnyddio, yn gwirio'r ffurflen wrth i chi ei chwblhau ac yn cyfrifo ar eich rhan. Cewch gydnabyddiaeth ein bod wedi ei derbyn yn syth, ac os bydd arian yn ddyledus i chi fe'i cewch yn ôl ynghynt na phetaech yn cyflwyno Ffurflen Dreth bapur. Ewch i **www.hmrc.gov.uk** a chlicio 'Cymraeg'.

Defnyddio'r Ffurflen Dreth Fer

Yn ôl y cofnodion sydd gennym ar eich cyfer, credwn y gallwch chi ddefnyddio'r ffurflen ond eich cyfrifoldeb chi ydy sicrhau eich bod yn gallu - felly darllenwch ymhellach.

Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i gwblhau eich Ffurflen Dreth Fer. Nid ydy'n cynnwys nodiadau fesul blwch - dim ond nodiadau ar gyfer y blychau y gallai fod angen help arnoch neu angen fwy o wybodaeth. Weithiau byddwn yn eich cyfeirio at nodiadau eraill neu Daflen Gymorth sydd ar gael o'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489**. Ond os bydd angen rhagor o help arnoch ynglŷn ag unrhyw beth ar y Ffurflen Dreth, yna cysylltwch â ni.

Pwy all ddefnyddio'r Ffurflen Dreth Fer?

Os oedd gennych un neu ragor o'r mathau canlynol o incwm yn y flwyddyn o 6 Ebrill 2008 i 5 Ebrill 2009, mae'n debyg y gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon - ond dylech ddarllen 'Pwy na all ddefnyddio'r Ffurflen Dreth Fer?' ar y dudalen nesaf hefyd, er mwyn bod yn siŵr.

Cysylltwch

â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Defnyddiwch y ffurflen hon

- os oeddech yn gyflogai ac yn cael eich talu cyflog neu os cawsoch fudd-daliadau trethadwy neu daliadau am dreuliau. Does dim gwahaniaeth p'un a oedd mwy nag un swydd gennych yn ystod y flwyddyn
- os oeddech yn hunangyflogedig, hynny yw, roeddech yn gweithio i chi eich hun ac nid i gyflogwr, ac roedd eich trosiant (yr arian a enillwch cyn didynnu treuliau) yn is na £30,000. Ond darllenwch y paragraff 'Pwy na all ddefnyddio'r Ffurflen Dreth Fer?' ar y dudalen nesaf hefyd
- os cawsoch bensiwn y DU (y wladwriaeth, galwedigaethol neu breifat) neu flwydd-dal
- os cawsoch fudd-daliadau trethadwy'r wladwriaeth - er enghraifft, Lwfans Ceisio Gwaith
- os cawsoch incwm sy'n is na £15,000 drwy osod eiddo yn y DU, er enghraifft rhenti, gan gynnwys gosod ystafell yn eich cartref (ond nid llety gwyliau wedi'i ddodrefnu)
- os cawsoch incwm trethadwy o gynilion yn y DU, er enghraifft, llog o fanc neu gymdeithas adeiladu, incwm trethadwy o Gynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol, difidendau gan gwmnïau neu ddifidendau a llog o ymddiriedolaethau uned awdurdodedig a chwmnïau buddsoddi penagored.

Pwy na all ddefnyddio'r Ffurflen Dreth Fer?

Ni ddylech ddefnyddio'r Ffurflen Dreth Fer am y flwyddyn o 6 Ebrill 2008 i 5 Ebrill 2009

- os oeddech yn gyfarwyddwr cwmni
  - oni bai ffurfiwyd y cwmni at ddibenion elusennol, neu os nad ydy'n fwriad gwneud elw ac os nad ydy'n masnachu, ac os nad ydy'n eich talu mewn unrhyw fodd neu'n darparu buddiannau
- os cawsoch gyfandaliad gan eich cyflogwr (neu gyn gyflogwr) oni bai ei fod yn dâl diswyddo a oedd o dan £30,000
- os cawsoch gyfandaliad pensiwn y wladwriaeth
- os oeddech yn hunangyflogedig ac
  - roedd gennych fwy nag un busnes, neu
  - roedd eich trosiant yn £30,000 neu'n uwch, neu
  - newidiodd dyddiad eich cyfrifon, neu
  - mae gennych golledion busnes yr ydych am eu gwrthbwyso yn erbyn incwm nad ydy'n ymwneud â'r busnes, neu yn erbyn treth mewn blwyddyn gynharach
- os oeddech mewn partneriaeth
- os oedd gennych unrhyw incwm trethadwy o opsiynau gwarantau, opsiynau cyfranddaliadau (ac eithrio difidendau) neu fudd-daliadau mewn perthynas â chyfranddaliadau
- os cawsoch incwm o £15,000 neu ragor drwy osod eiddo, neu roedd yr incwm o lety gwyliau wedi'i ddodrefnu
- os cawsoch enillion (neu cafodd ymddiriedolaeth y gwnaethoch gyfrannu ati enillion) o bolisïau a chontractau a drefnwyd gydag yswiriwr bywydau
- os cawsoch incwm o dramor (oni bai mai dim ond swm bach o incwm difidend tramor a gawsoch, hyd at £300)
- os cawsoch incwm o ystad person ymadawedig neu os cawsoch eich trin fel petaech wedi cael incwm, buddiannau neu enillion o ymddiriedolaeth neu setliad
- os cewch eich trin fel petaech yn derbyn buddiant oherwydd eich bod yn defnyddio eiddo yr oeddech yn ei berchen yn flaenorol, neu os gwnaethoch roi neu fenthyg arian i gaffael eiddo o'r fath, ond nid ydych yn talu'n llawn am ei ddefnyddio (gelwir hyn yn 'asedion perchenogaeth flaenorol')
- os nad oeddech yn preswylio neu 'fel arfer yn preswylio' neu os nad oedd eich domisil yn y DU (ffoniwch ni os nad ydych yn siŵr a ydy hwn yn gymwys i chi).

Ac ni fyddwch yn gallu defnyddio'r Ffurflen Dreth hon

- os ydych am ohirio talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 oherwydd eich bod yn gyflogedig yn ogystal ag yn hunangyflogedig, neu
- os yn anarferol, mae gennych golledion ar eich incwm yr ydych am eu gosod yn erbyn enillion cyfalaf, neu
- os ydych yn ad-dalu eich benthyciad myfyriwr, neu
- os oeddech yn ymwneud ag un neu ragor o gynlluniau osgoi treth y dylid eu datgelu.

Cysylltwch

â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Os na allwch ddefnyddio'r Ffurflen Dreth Fer

Edrychwch drwy'r ffurflen – ni ddylech ei defnyddio os na allwch ddod o hyd i flwch ar gyfer rhywbeth y credwch ddylai gael ei gynnwys ar eich Ffurflen Dreth – felly darllenwch ymhellach.

Ffoniwch y rhif ar dudalen 1 i ddweud na allwch ddefnyddio'r Ffurflen Dreth rydym wedi ei hanfon atoch, dywedwch pam (er mwyn i ni gael diweddaru ein cofnodion), ac anfonir y Ffurflen Dreth lawn atoch.

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno

Yn ôl y gyfraith mae'n ofynnol i chi ddatgan eich incwm trethadwy a'ch enillion cyfalaf ynghyd ag unrhyw ddogfennau y gofynnir amdanynt, am y flwyddyn o 6 Ebrill 2008 i 5 Ebrill 2009.

Rhaid i chi gyflwyno eich Ffurflen Dreth erbyn:

- 31 Hydref 2009 - os ydych yn bwriadu dychwelyd Ffurflen Dreth bapur, neu
- 31 Ionawr 2010 - os ydych yn bwriadu cyflwyno ar-lein.

Codir cosb o £100 arnoch os na fyddwn yn derbyn eich Ffurflen Dreth erbyn y dyddiad cau priodol. Os byddwch yn dychwelyd Ffurflen Dreth bapur yn hwyr, ni allwch osgoi'r gosb am gyflwyno'n hwyr drwy gyflwyno Ffurflen Dreth ar-lein hefyd. Byddwn yn anfon nodyn atgoffa ynghyd â slip talu atoch ym mis Rhagfyr. Os byddwch wedi cyfrifo bod treth yn ddyledus, yna dychwelwch y taliad llawn â'r slip talu i'n cyrraedd erbyn 31 Ionawr 2010. Os gwnewch hyn gallwch sicrhau y bydd y gosb o £100 yn cael ei gostwng i ddim. Drwy wneud hyn byddwch yn lleihau'r llog ac o bosib y gordal y gallai fod rhaid i chi ei dalu.

Cwblhau'r Ffurflen Dreth Fer

Os ydy'r ffurflen dreth hon yn briodol i chi, casglwch ynghyd eich cofnodion treth neu fusnes a dilynwch y cyfarwyddiadau ar dudalen 1 y ffurflen. Os gwnewch gamgymeriad, peidiwch â defnyddio hylif cywiro. Dylech gadw pob cofnod o fewn y blychau a pheidiwch â rhoi llinell drwy unrhyw flychau nad ydynt yn gymwys i chi.

Os caiff eich Ffurflen Dreth ei chwblhau ar eich rhan gan rywun arall
Mae hynny'n iawn ond y chi sy'n gyfrifol am yr hyn a gofnodir ar y ffurflen, hyd yn oed os mai eich cynghorydd treth fydd yn ei chwblhau. Mae'n rhaid i chi lofnodi'r ffurflen. Ffoniwch ni os ydy llofnodi'r ffurflen yn broblem i chi.

Enillion Cyfalaf 1.5

Enillion Cyfalaf
Bydd enillion (neu golledion) yn codi pan fyddwch yn gwerthu neu'n trosglwyddo rhan neu'r cyfan o rywbeth rydych yn ei berchen (ased), megis cyfranddaliadau cwmni neu eiddo. Yn ogystal â'r mathau o incwm a restrwyd ar dudalen STRG 1 y canllaw hwn, os byddwch wedi gwneud ennill neu golled cyfalaf byddwch yn gallu defnyddio'r Ffurflen Dreth Fer o hyd. Ond bydd yn rhaid i chi gwblhau ffurflen ychwanegol, ffurflen SA108, sydd ar gael o'r Llinell Gyswllt;

- os oedd yr asedion a werthwyd neu a roddwyd yn werth mwy na phedair gwaith 'y swm blynyddol a eithrir' - mae'r swm blynyddol a eithrir yn £9,600 ar gyfer 2008-09, felly dyna £38,400 (dylech anwybyddu asedion a eithriwyd ac asedion a waredwyd drwy eu rhoi i'ch priod neu'ch partner sifil, os oeddech yn byw gyda'ch gilydd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn), neu,
- os bydd gennych golledion i'w didynnu o'ch enillion ond mae eich enillion cyn colledion yn fwy na £9,600, neu
- nid oes gennych unrhyw golledion ond mae eich enillion yn fwy na £9,600, neu
- rydych am hawlio colled cyfalaf caniataol neu rydych am hawlio unrhyw enillion cyfalaf eraill neu 'ddewisiadau' am y flwyddyn.

Incwm Cyflogaeth

Mae rheolau arbennig os oeddech yn gweithio dramor yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Os buoch yn gweithio dramor ffoniwch ni.

2.2 **Cyflog o bob cyflogaeth**

Mae'n rhaid i'ch cyflogwr roi cofnod o'ch cyflog a'ch treth i chi – os oeddech yn gweithio ar 5 Ebrill cewch Dystysgrif Diwedd Blwyddyn P60. Os gadawsoch cyn 5 Ebrill byddwch wedi cael P45 (Rhan 1A). Os mai dim ond un swydd oedd gennych yn y flwyddyn, rhowch y cyflog o flwch 'yn y gyflogaeth hon' (in this employment) ar y P60 ym mlwch 2.2, neu o flwch 'cyfanswm y cyflog yn y gyflogaeth hon' (total pay in this employment) ar y P45. Os oedd gennych fwy nag un swydd, adiwch bob ffigur 'yn y gyflogaeth hon' at ei gilydd (os oedd gennych ddwy swydd neu ragor ar 5 Ebrill ac felly roedd gennych fwy nag un P60) neu ffigurau 'cyfanswm y cyflog yn y gyflogaeth hon' o'ch ffurflenni P45.

2.3 **Treth a ddidynnwyd**

Ychwanegwch y ffigurau 'cyfanswm y dreth yn y gyflogaeth hon' ar eich ffurflenni P45, neu'r ffigurau 'treth a ddidynnwyd yn y gyflogaeth hon' o'ch P60 at ei gilydd (os oedd gennych fwy nag un), a rhowch y cyfanswm ym mlwch 2.3. Os ydy'ch P45 neu'ch P60 yn dangos bod treth wedi ei had-dalu i chi, rhowch arwydd minws o flaen y ffigurau treth ym mlwch 2.3.

2.4 **Buddiannau a threuliau trethadwy a gafwyd**

Os cawsoch fuddiannau trethadwy megis yswiriant meddygol neu gar cwmni, neu os talwyd treuliau trethadwy i chi, mae'n rhaid i'ch cyflogwr roi'r wybodaeth i chi ar gyfer eich Ffurflen Dreth, mwy na thebyg ar ffurflen P11 erbyn 6 Gorffennaf. Os na fyddwch wedi ei derbyn erbyn hynny dylech gael gair â'ch cyflogwr neu ein ffonio ni. Defnyddiwch eich P11D a'r Daflen Waith isod i gyfrifo'r ffigur ar gyfer blwch 2.4.

Taflen waith

Lwfans milltiroedd (dros y terfynau)† (o flwch 12 yn Adran E y P11D)	£
Cyfwerth mewn arian am bob car (o flwch 9 yn Adran F)	£
Cyfwerth mewn arian am danwydd (o flwch 10 yn Adrannau F a G)	£
Faniau (o flwch 9 yn Adran G)	£
Yswiriant meddygol a deintyddol preifat (o flwch 11 yn Adran I)	£
Benthyciadau di-log a llog isel (o flwch 15 yn Adran H)	£
Cardiau Credyd, talebau, ac ati (o flwch 12 yn Adran C)	£
Llety (o flwch 14 yn Adran D)	£
Arall (er enghraifft, asedion a drosglwyddwyd a thaliadau a wnaed ar eich rhan)	£
Cyfanswm (copïwch i flwch 2.4)	£

†Os ydy'ch cyflogwr yn talu lwfans milltiroedd am ddefnyddio eich car, eich beic modur neu eich beic eich hun ar gyfer gwaith, bydd yn rhaid i chi dalu treth ar y lwfans dim ond os cewch eich talu mwy na:

- ceir neu faniau – 40 ceiniog y filltir am y 10,000 milltir gyntaf, yna 25 ceiniog y filltir ar ôl hynny
- beiciau modur – 24 ceiniog y filltir
- beiciau – 20 ceiniog y filltir.

Os cewch lai na'r uchafswm, gallwch gael rhyddhad treth ar y gwahaniaeth – darllenwch y nodiadau ar gyfer blwch 2.5.

Cysylltwch

â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

2.5

Treuliau caniataol

Gallwch ddidynnu dim ond y costau hynny y mae'n rhaid i chi eu talu wrth wneud eich gwaith – os bydd angen help arnoch, ffoniwch ni. Os ydych am wneud cais am lwfansau cyfalaf hefyd, yna ni allwch ddefnyddio'r ffurflen hon.

Treuliau teithio

Ni allwch gael rhyddhad treth ar gyfer y gost o deithio o'ch cartref i'ch gweithle arferol. Fodd bynnag, gallwch ddidynnu cost teithiau busnes – p'un a ydynt yn y DU neu dramor – yn ogystal â chostau eraill megis llety a phrydau bwyd sy'n gysylltiedig â'r daith. Mae taith fusnes yn golygu teithio o un gweithle i'r llall yn yr un gyflogaeth. Gallwch hefyd ddidynnu'r gost o deithio o'ch cartref i weithle dros dro (sef rhywle rydych yn gweithio yno am lai na dwy flynedd oni bai eich bod yn gweithio'n amser llawn neu bron yn amser llawn, mewn cyflogaeth tymor byr).

Os ydy teithio yn rhan o'ch swydd, gallwch ddidynnu costau teithio a phrydau ac ati, o'r amser y gadawsoch eich cartref. (Ond os ydych yn byw gryn bellter o'r ardal lle rydych yn gweithio, ni allwch ddidynnu'r costau a dalwch er mwyn cyrraedd yr ardal honno.)

Defnyddio eich car, beic modur neu eich beic eich hun

Os ydy'ch cyflogwr yn talu llai na'r uchafswm lwfans milltiroedd, gallwch gael rhyddhad treth am y diffyg. Cadwch gofnodion o'ch milltiroedd busnes ac o'r treuliau lwfans milltiroedd a delir i chi.

Enghraifft

Rydych yn teithio 16,000 milltir ar fusnes yn eich car eich hun. Y swm uchaf y gallwch gael heb dalu treth ydy:

	£
10,000 milltir ar 40 ceiniog	4,000
6,000 milltir ar 25 ceiniog	1,500
Cyfanswm	5,500

Felly, os talwyd dim ond £3,500 i chi, gallwch ddidynnu'r gwahaniaeth o £2,000 fel traul.

Nawr adiwch at ei gilydd

- yr holl gostau teithio caniataol, gan gynnwys y prydau a'r llety sy'n gysylltiedig ar daith
- treuliau busnes, megis galwadau ffôn busnes
- treuliau cyfradd unffurf (gallai'r rhain fod ar eich Hysbysiad Cod TWE am y flwyddyn)
- ffioedd neu danysgrifiadau i gyrff proffesiynol a dalwch yn bersonol
- unrhyw dreuliau caniataol eraill

a rhowch y cyfanswm ym mlwch 2.5.

2.6

Cyfeirnod treth TWE eich prif gyflogwr neu eich cyflogwr diwethaf

Cewch hyd i gyfeirnod treth TWE eich cyflogwr ar eich Hysbysiad Cod TWE, eich P45 neu eich P60 am y flwyddyn i 5 Ebrill 2009.

Os oedd gennych fwy nag un swydd yn y flwyddyn honno, rhowch y cyfeirnod am eich prif gyflogaeth – gallai hynny fod y lle y buoch yn gweithio mwyaf diweddar os nad ydych yn gweithio bellach, lle'r oeddech yn gweithio'r oriau hwyaf neu le'r oeddech yn ennill yr arian mwyaf.

Incwm hunangyflogaeth

Eich blwyddyn fusnes

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon dim ond os oedd eich trosiant blynyddol yn is na £30,000 – dylech sicrhau eich bod yn darllen y nodyn ar gyfer blwch 3.7 ar dudalen STRG 7.

Bydd yr hyn a nodwch ym mlwch 3.4, a blychau 3.7 i 3.11, yn dibynnu ar ba mor hir y buoch yn gweithio i chi eich hun. Nid ydy'n hawdd i'w gyfrifo, felly darllenwch y nodiadau isod ac ar dudalen STRG 7 a chwiliwch am y pennawd sy'n gweddu â'ch amgylchiadau.

Dyddiad cau eich llyfrau

3.4 Mae'n arfer i gadw eich cofnodion busnes (ac mae'n rhaid i chi gadw cofnodion, yn ôl y gyfraith, i ategu'r wybodaeth yn eich Ffurflen Dreth) fesul blwyddyn. Argymhellwn eich bod yn cau eich llyfrau ar yr un dyddiad bob blwyddyn – y dyddiad hwnnw bydd eich 'dyddiad diwedd blwyddyn' neu 'dyddiad cyfrifyddu blynyddol'. Rhowch ddyddiad diwedd eich blwyddyn ym mlwch 3.4.

A ydych wedi gweithio i chi eich hun am gyfnod o fwy na thair blynedd?
Os felly, rhowch eich manylion am y 12 mis hyd at eich dyddiad diwedd blwyddyn a syrthiodd rhwng 6 Ebrill 2008 a 5 Ebrill 2009 ym mlychau 3.7 i 3.10 (neu 3.11).

A wnaethoch chi ddechrau gweithio i chi eich hun yn ystod y flwyddyn o 6 Ebrill 2008 i 5 Ebrill 2009?
Os buoch yn gweithio i chi eich hun am lai na 12 mis, bydd yn rhaid i chi ddewis dyddiad diwedd blwyddyn, ac yna defnyddiwch yr un dyddiad bob blwyddyn. Gall hyn fod unrhyw ddyddiad yn ystod y flwyddyn, ond gan fod y flwyddyn dreth yn gorffen ar 5 Ebrill, efallai y byddai'n gyfleus i chi ddefnyddio 5 Ebrill. Gallai hynny olygu bod eich cofnodion cyntaf am gyfnod sy'n llai na 12 mis. Pan fyddwch wedi dewis eich dyddiad diwedd blwyddyn cyntaf, rhowch y dyddiad hwnnw ym mlwch 3.4. Os defnyddiwch 5 Ebrill 2009 rhowch y ffigurau o'r dyddiad y dechreuoch weithio i chi eich hun hyd at 5 Ebrill 2009 ym mlychau 3.7 i 3.10 (neu 3.11).

Os ydy'r dyddiad ym mlwch 3.4 cyn 5 Ebrill 2009, ni allwch ddefnyddio'r ffurflen hon: dylech gysylltu â ni.

Os ydy'r dyddiad ym mlwch 3.4
- ar ôl 5 Ebrill 2008, a
- rydych wedi paratoi eich cyfrifon cyntaf

defnyddiwch y ffigurau hynny ym mlychau 3.7 i 3.10 (neu 3.11). Byddwn yn eich trethu ar y rhan hynny o'ch elw sy'n disgyn o fewn y flwyddyn dreth 6 Ebrill 2008 i 5 Ebrill 2009. Byddwn yn cyfrifo hynny drwy ddefnyddio'r ffigurau a roddwch i ni.

Os na fyddwch wedi dewis eich dyddiad diwedd blwyddyn erbyn 31 Hydref 2009 neu wedi paratoi eich cyfrifon cyntaf, ni allwch ddefnyddio'r ffurflen hon: dylech gysylltu â ni.

A wnaethoch chi ddechrau rhwng 6 Ebrill 2007 a 5 Ebrill 2008?
Byddwch wedi penderfynu ar eich dyddiad diwedd blwyddyn erbyn hyn. Os gwnaethoch baratoi eich cyfrifon cyntaf i 5 Ebrill 2009, rhowch y ffigurau am y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2009 ym mlychau 3.7 i 3.10 (neu 3.11).

Os gwnaethoch baratoi eich cyfrifon cyntaf i ddyddiad ar ôl 5 Ebrill 2008, rhowch y ffigurau o'r dyddiad y gwnaethoch ddechrau gweithio i chi eich hun, hyd y dyddiad diwedd blwyddyn a syrthiodd rhwng 6 Ebrill 2008 a 5 Ebrill 2009 ym mlychau 3.7 i 3.10 (neu 3.11). Os ydy'r dyddiad ym mlwch 3.4 yn fwy na 12 mis ar ôl y dyddiad y dechreuoch weithio i chi eich hun, byddwn yn cyfrifo'r swm i'w drethu.

Os ydy'r dyddiad ym mlwch 3.4 yn llai na 12 mis ar ôl i chi ddechrau gweithio i chi eich hun, ni allwch ddefnyddio'r ffurflen hon: dylech gysylltu â ni.

A wnaethoch chi ddechrau gweithio rhwng 6 Ebrill 2006 a 5 Ebrill 2007?
Os gwnaethoch baratoi eich cyfrifon cyntaf hyd at ddyddiad cyn 5 Ebrill 2008, rhowch y ffigurau ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl eich dyddiad diwedd blwyddyn diwethaf ac sy'n gorffen ar ddyddiad diwedd blwyddyn rhwng 6 Ebrill 2008 a 5 Ebrill 2009, ym mlychau 3.7 i 3.10 (neu 3.11).

Cysylltwch

â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Os gwnaethoch baratoi eich cyfrifon cyntaf hyd at ddyddiad ar ôl 6 Ebrill 2008, rhowch y ffigurau o'r dyddiad ym mlwch 3.2 hyd at eich dyddiad diwedd blwyddyn cyntaf ym mlwch 3.4, ym mlychau 3.7 i 3.10 (neu 3.11). Byddwn yn cyfrifo'r swm sy'n drethadwy.

A wnaethoch chi orffen gweithio i chi eich hun yn y flwyddyn 6 Ebrill 2008 a 5 Ebrill 2009?

Os buoch yn gweithio i chi eich hun am ddwy flynedd neu ragor, bydd eich Ffurflen Dreth am y flwyddyn 6 Ebrill 2007 i 5 Ebrill 2008 wedi cynnwys manylion am eich blwyddyn a ddaeth i ben rhwng y ddau ddyddiad hynny.

Y ffigurau sydd eu hangen ar gyfer y Ffurflen Dreth hon, ydy'r rhai ar gyfer y cyfnod sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl eich dyddiad diwedd blwyddyn diwethaf, hyd at y dyddiad y peidioch â gweithio i chi eich hun (y dyddiadau ym mlychau 3.3 a 3.4). Efallai y bydd hawl gennych gael rhyddhad treth a fydd yn gostwng eich elw ym mlwch 3.10. Mae hyn yn dibynnu ar y cyfnod y buoch yn gweithio i chi eich hun. Os oes hawl gennych, byddwn yn cyfrifo hyn ar eich rhan.

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2

Does dim angen rhoi unrhyw beth ar y Ffurflen Dreth ond, oherwydd eich bod yn gweithio i chi eich hun, mae'n rhaid i chi dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2. Os talwch yn hwyr efallai y collwch fudd-daliadau nawr neu nes ymlaen.

Os ydych newydd ddechrau gweithio i chi eich hun, mae'n rhaid i chi gofrestru o fewn tri mis o ddechrau bod yn hunangyflogedig. Os na fyddwch yn cofrestru mewn da bryd, gellir eich cosbi. Os hoffech gael mwy o wybodaeth, ffoniwch y Llinell Gymorth ar gyfer y rhai sydd newydd ddechrau'n hunangyflogedig ar **08459 15 45 15**.

3.5 **Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4**

Os ydy'ch elw ar gyfer blwch 3.10 yn uwch na £5,435 efallai y bydd yn rhaid i chi dalu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 yn ogystal â Dosbarth 2. Byddwn yn cyfrifo'r swm sy'n rhaid i chi ei dalu.

Eithriad

Cewch eich eithrio rhag talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 os oeddech ar 6 Ebrill 2008:

- yn ddyn sy'n 65 mlwydd oed neu'n hŷn, neu
- yn fenyw sy'n 60 mlwydd oed neu'n hŷn, neu
- o dan 16.

Rhowch 'X' ym mlwch 3.5 os oes un o'r rhain yn berthnasol.

Gohiriad

Os cewch eich cyflogi yn ogystal â bod yn hunangyflogedig, gall y Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol gytuno y gellir gohirio rhai o'ch CYG Dosbarth 4 tan y gellir pennu cyfanswm eich cyfraniadau. Os cytunir eich cais i ohirio, anfonir tystysgrif gohirio (ffurflen CA2703) atoch. Os rhoddwyd tystysgrif gohirio i chi eisoes, neu os ydych am wneud cais i ohirio CYG Dosbarth 4, yna cysylltwch â ni: ni allwch ddefnyddio'r ffurflen hon.

3.7 **Trosiant**

Beth ydy Trosiant?

Trosiant yw'r holl arian y mae'ch busnes neu eich gwaith hunangyflogedig yn ei ennill, ac mae'n cynnwys

- arian parod neu sieciau a gewch
- cil-dyrnau, ffioedd a chomisiynau
- gwerth unrhyw daliadau ar ffurf nwyddau a gewch (hynny yw, nid taliad mewn arian parod) am waith a wnaethoch neu am nwyddau a werthwyd gennych.

Nid ydy'n cynnwys arian a gafwyd os ydych wedi gwerthu darn o gyfarpar (oni bai fod eich busnes yn un sy'n gwerthu cyfarpar), neu weithle'r busnes, neu Lwfans Dechrau Busnes – a elwir weithiau yn Lwfans Menter. Rhowch Lwfans Dechrau Busnes ym mlwch 3.6.

Trosiant yw'r arian sy'n ddyledus i chi hyd at ddiwedd eich blwyddyn, ar gyfer y gwaith a wnaed, p'un a gawsoch eich talu ai peidio.

Os byddwch chi neu eich teulu neu eich ffrindiau yn cymryd unrhyw stoc neu nwyddau allan o'ch busnes, dylech gynnwys yn eich trosiant, ei werth ac nid yn unig y gost i chi o'r hyn a gymerwyd.

Trosiant Blynyddol

Gallwch ddefnyddio'r Ffurflen Dreth hon dim ond os ydy'ch trosiant blynyddol yn is na £30,000. Os buoch yn gweithio am 6 mis yn unig caiff y £30,000 hwnnw ei ostwng i £15,000 ($^{6}/_{12}$ x £30,000). Os oedd eich trosiant blynyddol yn £30,000 neu'n uwch, dylech gysylltu â ni: ni allwch ddefnyddio'r Ffurflen Dreth hon.

3.8 **Treuliau caniataol at ddibenion treth**

Bydd treuliau yn amrywio o fusnes i fusnes – cynhwysir y rhai mwyaf cyffredin yn y Daflen Waith isod.

Nid yw rhai treuliau yn ganiataol, er enghraifft, gwesteia. Caniateir rhai yn rhannol yn unig. Os, er enghraifft, defnyddiwch eich car eich hun ar gyfer teithiau busnes yn ogystal â theithiau preifat, neu os defnyddiwch ystafell yn eich cartref fel swyddfa, dim ond y costau hynny sy'n ymwneud â'r busnes y gallwch eu hawlio. Bydd yn rhaid i chi gyfrifo hyn.

Os ydych am gael rhagor o wybodaeth gofynnwch y Llinell Gyswllt am *Nodiadau ar Hunangyflogaeth (byr)* am y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2009, a Thaflen Gymorth 222, *How to calculate your taxable profits.* Anwybyddwch rifau'r blychau yn y nodiadau hynny – maent yn cyfeirio at flychau ar Ffurflen Dreth arall.

Taflen Waith	
Prynu stoc neu ddefnyddiau	£
Llafur a chostau isgontractwyr	£
Cyflogau a dalwyd i gyflogeion	£
Rhenti, treth gyngor a goleuo, gwresogi ac ati	£
Cynnal a chadw cyffredinol ac amnewid offer bach	£
Costau swyddfa – post, hysbysebu, ffôn	£
Costau moduro – tanwydd, yswiriant ac ati	£
Costau cyfreithiol a phroffesiynol – ffioedd cyfrifyddion a chyfreithwyr	£
Dyledion heb eu hadennill (drwg)	£
Llog a thaliadau gorddrafft	£
Arall	£
Cyfanswm *copïwch i flwch 3.8*	£

3.9 **Lwfansau cyfalaf**

Ni ddylai eich cais am dreuliau gynnwys y gost o brynu neu wella eitemau, er enghraifft cerbydau, cyfarpar, dodrefn y busnes ac offer a ddefnyddiwch yn eich busnes. Yn lle hynny, gallwch wneud cais am lwfansau treth a elwir yn lwfansau 'cyfalaf'. Mae'r math o lwfans cyfalaf y gallwch ei hawlio yn dibynnu ar y gost a'r math o eitemau sydd gennych ac amgylchiadau eraill – gweler y nodiadau isod.

Cysylltwch

â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Mae'r cyngor sy'n dilyn yn berthnasol os oes gennych gyfnod cyfrifyddu 'safonol' yn unig, sef o 6 Ebrill 2008 i 5 Ebrill 2009. Os ydy'ch cyfnod yn wahanol dylech ddarllen Taflen Gymorth 222 *How to calculate your taxable profits*, neu cysylltwch â ni neu eich cynghorydd treth.

Lwfans Buddsoddi Blynyddol (LBB – AIA yn Saesneg)

Gallwch hawlio lwfans cyfalaf newydd a elwir yn 'Lwfans Buddsoddi Blynyddol' (LBB) os gwnaethoch brynu cyfarpar (ond nid ceir) ar neu ar ôl 6 Ebrill 2008, hyd at swm blynyddol o £50,000. Ychwanegwch at ei gilydd gostau'r holl gyfarpar. Os ydy cyfanswm y gwariant yn £50,000 neu lai, gallwch hawlio 100% o'r swm hwnnw fel eich LBB. Os mai LBB yw'r unig lwfans cyfalaf rydych yn ei hawlio, rhowch gyfanswm y LBB ym mlwch 3.9.

Lwfans 'ar bapur' (LAB – WDA yn Saesneg)

Os ydych wedi gwario mwy na £50,000 ar gyfarpar a cherbydau mewn blwyddyn (ond gweler y nodyn isod ynglŷn â cheir), rhowch y swm sydd dros ben mewn 'cronfa'. Mae'r 'gronfa' hon yn cynrychioli cyfanswm eich gwariant cyfalaf, ar ôl didynnu eich LBB, ac unrhyw arian y gallech fod wedi derbyn os gwerthwyd unrhyw un o'r eitemau (neu werth marchnad yr eitem os nad ydych yn ei defnyddio bellach yn y busnes neu os bydd eich busnes wedi dod i ben). Efallai y bydd gennych 'gronfa' ar gyfer gwariant pan na chafwyd rhyddhad, ac a gariwyd ymlaen o flwyddyn gynharach. Os felly, ychwanegwch wariant eleni, ar ôl didynnu'r LBB a derbyniadau gwerthiant ar gyfer y flwyddyn hon, at y ffigur sydd gennych yn y gronfa ar gyfer y flwyddyn flaenorol, i bennu cyfanswm eich 'cronfa' newydd. Bob blwyddyn yn ychwanegol at y LBB, gallwch hefyd hawlio lwfans blynyddol o 20% o'r swm net sydd yn eich 'cronfa' – gelwir hyn yn 'lwfans ar bapur' (LAB) neu *'written down allowance'* (WDA) yn Saesneg.

Lwfans cronfeydd bychain

Fel arall, os ydy'r swm net yn eich cronfa yn £1,000 neu lai, gallwch hawlio'r balans cyfan hwnnw fel 'lwfans cronfeydd bychain' neu ei ddiddymu, yn lle hawlio LAB o 20%. Bydd y lwfans cronfeydd bychain newydd hwn o £1,000 ar gael ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar neu ar ôl 6 Ebrill 2008.

Os byddwch yn hawlio naill ai'r LAB neu'r lwfans cronfeydd bychain', dylech gynnwys y lwfansau hyn ym mlwch 3.9, yn ogystal â'r LBB.

Ceir

Os byddwch yn prynu car ni fydd y gost yn gymwys am LBB, ond os oedd y car yn costio £12,000 neu lai, ac rydych yn ei ddefnyddio at ddibenion y busnes yn unig, gallwch ychwanegu'r gwariant hwn at eich cronfa. Bydd y swm yn gymwys am y lwfans ar bapur blynyddol o 20%, ynghyd â gwariant arall a gynhwyswyd yn y gronfa.

Os bydd car yn costio mwy na £12,000 rhaid i chi gadw cost pob car mewn cronfa ar wahân. Ni allwch hawlio mwy na £3,000 mewn unrhyw flwyddyn, felly mae'n rhaid i chi gyfyngu'r lwfans ar bapur blynyddol o 20% i £3,000. (Ceir eithriad ar gyfer ceir gydag allyriad CO_2 isel, sy'n gymwys am lwfans arbennig o 100% – gallwch ein ffonio os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch.)

Defnydd busnes a phreifat

Rhaid i chi gadw cost car (faint bynnag yw'r swm) ac unrhyw eitem arall a ddefnyddiwch yn rhannol at ddibenion nad ydynt yn ymwneud â'r busnes mewn cronfa ar wahân ar gyfer pob eitem. Dylech gyfrifo'r lwfansau cyfalaf yn y ffordd arferol ond wedyn dylech eu cyfyngu i'r gyfran at ddefnydd busnes. Ychwanegwch y lwfansau ar ôl eu cyfyngu, sydd yn y cronfeydd 'ased unigol', at unrhyw lwfansau eraill rydych yn eu hawlio i bennu'r cyfanswm y dylid ei roi ym mlwch 3.9.

Enghraifft

Mae Dewi Jones yn beintiwr a phapurwr. Dechreuodd weithio ar ei liwt ei hun ar 6 Ebrill 2008. Mae'n penderfynu llunio ei gyfrifon hyd at 5 Ebrill bob blwyddyn (5 Ebrill yw ei ddyddiad cyfrifyddu).

Pan ddechreuodd ei fusnes, prynodd ysgolion am £2,000, offer arbenigol am £18,000 a fan at ddefnydd y busnes am £32,000. Ym mis Rhagfyr 2008 prynodd Dewi gar am £16,000. Mae 60% o ddefnydd y car at ddibenion busnes a 40% at ddibenion preifat.

Mae'r ysgolion, yr offer a'r fan gyda'i gilydd yn creu 'cronfa' cost neu werth , sy'n gymwys am Lwfans Buddsoddi Blynyddol (LBB) o hyd at £50,000 ac mae unrhyw swm uwchben hyn yn gymwys am lwfans ar bapur o 20%. Ni all y car gael ei osod yn y gronfa gyda'r offer a'r fan ac nid yw'n gymwys am LBB, ond mae rhan o'r gwariant arno yn gymwys am Lwfans ar bapur (LBA). Gan fod y car wedi costio mwy na £12,000, mae'n cael ei roi mewn cronfa ar wahân ar ei ben ei hun, a gall Dewi hawlio lwfansau o hyd at £3,000 yn unig (nid 20% o'r hyn a wariodd arno oherwydd byddai hynny'n fwy na £3,000). Rhaid cyfyngu'r lwfans o £3,000 ymhellach i 60% oherwydd caiff ei ddefnyddio'n rhannol yn unig (60%) at ddibenion busnes.

Mae Dewi'n penderfynu cau'r busnes ar 30 Medi 2010. Mae'n gwerthu'r fan am £10,000, y car am £8,000 ac yn sgrapio'r ysgolion a'r offer arbenigol. Dyma gyfrifiad lwfansau cyfalaf Dewi:

	Cronfa £	**Car £**	**Lwfans £**
Y cyfnod a ddaeth i ben 5 Ebrill 2009			
Cyfanswm y gwariant			
Cost yr ysgolion	2,000		
Offer arbenigol	18,000		
Cost y fan	32,000		
Cost y car		16,000	
Cyfanswm y gwariant	52,000	16,000	
Llai			
Lwfans Buddsoddi Blynyddol (uchafswm £50,000)	50,000		50,000
Gweddill y gronfa	2,000	16,000	
Llai			
LAB blynyddol o 20% - y brif gronfa (£2,000 x 20%)	400		400
LBA blynyddol o 20% - car (uchafswm £3,000)		3,000	
(cyfyngiad pellach i £3,000 x 60% at ddefnydd busnes)			1,800
Gwerth y gronfa i'w chario ymlaen i 2009-10	1,600	13,000	
Cyfanswm y lwfansau cyfalaf i'w cofnodi ym mlwch 3.9			**52,200**
Y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2010			
Gwerth a ddygwyd ymlaen	1,600	13,000	
Llai			
LAB blynyddol o 20% - y brif gronfa (£1,600 x 20%)	320		320
LBA blynyddol o 20% - car (£13,000 x 20%)		2,600	
(cyfyngiad pellach i £2,600 x 60% at ddefnydd busnes)			1,560
Gwerth y gronfa i'w chario ymlaen i 2010-11	1,280	10,400	
Cyfanswm y lwfansau cyfalaf i'w cofnodi ym mlwch 3.9			**1,880**
Y cyfnod a ddaeth i ben 30 Medi 2010			
Gwerth a ddygwyd ymlaen	1,280	10,400	
Llai			
Derbyniadau'r gwaredu	10,000	8,000	
Tâl mantoli – cronfa (i'w gofnodi ym mlwch 3.7)	**(8,720)**		
Lwfans mantoli – car		2,400	
(cyfyngiad pellach i £2,400 x 60%) - i'w gofnodi ym mlwch 3.9			**1,440**

Lwfansau mantoli

Os byddwch yn gwerthu eitem, neu os na fyddwch bellach yn ei defnyddio yn y busnes, neu os ydy eich busnes wedi dod i ben, didynnwch dderbyniadau'r gwerthiant (neu'r gwerth) o'r gwerth yn y gronfa y mae'r eitem ynddi. Ar gyfer cronfeydd sydd ag un eitem yn unig ynddynt (cronfa 'eitem unigol'), os ydy'r derbyniadau neu'r gwerth yn llai na gwerth y gronfa, gelwir y gwahaniaeth yn 'lwfans mantoli', a dylid ei gynnwys ym mlwch 3.9.

Rhowch gyfanswm unrhyw LBB, Lwfans ar bapur blynyddol o 20%, 'lwfans cronfeydd bychain', a lwfansau mantoli ym mlwch 3.9.

Taliadau Mantoli

Pan fyddwch yn gwerthu eitem y buoch yn hawlio lwfansau cyfalaf ar ei chyfer, yna didynnwch y swm a gewch amdano (derbyniadau'r gwerthiant) o'r gronfa. Yn yr un modd, os na fyddwch bellach yn defnyddio'r eitem at ddibenion busnes, didynnwch ei gwerth o'r gronfa. Os bydd derbyniadau'r gwerthiant neu'r gwerth yn fwy na'r swm yn y gronfa, rhaid ychwanegu'r gwahaniaeth, a elwir yn 'tâl mantoli', at eich trosiant ym mlwch 3.7.

3.10 **Elw**

Os ydy eich trosiant yn fwy na'ch treuliau a'ch lwfansau cyfalaf gyda'i gilydd, byddwch wedi gwneud elw at ddibenion treth. Yr elw yw blwch 3.7 llai blychau 3.8 a 3.9 wedi eu hychwanegu at ei gilydd. Rhowch eich elw ym mlwch 3.10.

3.11 **Colled**

Os ydy eich treuliau a'ch lwfansau cyfalaf gyda'i gilydd yn fwy na'ch trosiant, byddwch wedi gwneud colled at ddibenion treth. Yr elw yw blychau 3.8 a 3.9 wedi eu hychwanegu at ei gilydd llai blwch 3.7. Rhowch eich colled ym mlwch 3.11.

3.12 **Colledion busnes a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach**

Byddwn yn didynnu colledion a ddygwyd ymlaen o'r elw (blwch 3.10) byddwn yn ei drethu. Ond os gwnaethoch golled (blwch 3.11) dylech ei hychwanegu at y colledion sy'n bodoli eisoes ac a ddygwyd ymlaen gan nodi'r cyfanswm yn y blwch hwn ar Ffurflen Dreth y **flwyddyn nesaf**.

3.13 **Didyniadau Cynllun y Diwydiant Adeiladu a ddidynnwyd**

Os ydych yn isgontractiwr yn y diwydiant adeiladu, a didynnodd eich contractwr didyniadau o'r arian y gwnaeth ef/hi dalu i chi, dylai'r contractwr fod wedi rhoi 'datganiadau tâl a didyniadau' i chi ar gyfer pob taliad neu ar gyfer pob mis y cawsoch eich talu. Dylai'r rhain ddangos yr hyn a dalwyd i chi a'r hyn a ddidynnwyd o'r taliadau hyn. Rhaid i gontractwyr roi'r datganiadau hyn i isgontractwyr sy'n cael eu talu ar sail didyniadau. Ychwanegwch at ei gilydd yr holl ddidyniadau sy'n ymddangos ar eich datganiadau tâl a didyniadau ar gyfer y flwyddyn i 5 Ebrill 2009 a rhowch y cyfanswm ym mlwch 3.13. (Peidiwch ag amgáu eich datganiadau tâl a didyniadau gyda'ch Ffurflen Dreth). Os na chawsoch ddatganiadau tâl a didyniadau gan eich contractwr pan gawsoch eich talu, dylech ofyn amdanynt nawr. Os ydych wedi colli rhai ohonynt, gofynnwch eich contractwr am gopïau. Os oes problem gallwch ein ffonio ni.

Os ydych eisoes wedi anfon eich datganiadau tâl a didyniadau atom er mwyn gwneud cais am ad-daliad, dylech fod wedi cadw manylion - gwnewch yn siŵr bod y ffigur ym mlwch 3.13 yn cynnwys y didyniadau ar y datganiadau hynny. (Dylech roi'r ad-daliad ym mlwch 12.11.) Os na wnaethoch gadw'r manylion hynny dylech ein ffonio nawr.

Pensiynau'r DU a budd-daliadau'r wladwriaeth a gafwyd

Peidiwch â chynnwys Lwfans Gweini yn unrhyw le ar eich Ffurflen Dreth.

4.1 **Pensiwn y wladwriaeth**

Nodwch y swm llawn yr oedd hawl gennych dderbyn yn y flwyddyn, ond didynnwch

- unrhyw ychwanegiad ar gyfer plentyn dibynnol (ond cynhwyswch unrhyw ychwanegiad ar gyfer oedolyn dibynnol)
- y bonws Nadolig.

Os na wyddoch beth ydy'r ffigur ffoniwch Pensions Direct ar **0845 3013011** a gofynnwch am ffurflen BR735 am y cyfnod 6 Ebrill 2008 i 5 Ebrill 2009.

4.2 **Cyfanswm pensiynau a blwydd-daliadau ymddeol eraill**

Adiwch at ei gilydd holl bensiynau eraill y DU a gawsoch yn y flwyddyn, er enghraifft pensiynau galwedigaethol a blwydd-daliadau ymddeol. Bydd talwr y pensiwn yn rhoi P60 neu ddatganiad tebyg i chi.

A ydych yn derbyn pensiwn am eich bod wedi ymddeol oherwydd salwch mewn perthynas â'ch gwaith neu anaf yn y gwaith? Os ydych yn derbyn pensiwn o'r fath ac mae'n uwch nag y byddai wedi bod petaech wedi ymddeol am resymau iechyd na chawsant eu hachosi gan eich gwaith, dylech ein ffonio.

4.3 **Treth a ddidynnwyd o'r ffigur ym mlwch 4.2**

Rhowch y cyfanswm a ddidynnwyd o'ch holl bensiynau ym mlwch 4.3. Os ydy'ch P60 (neu ddatganiad tebyg) yn dangos bod treth wedi'i had-dalu i chi, rhowch arwydd minws o flaen y ffigur treth ym mlwch 4.3.

Cysylltwch

â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

4.4 **Cyfanswm budd-daliadau trethadwy eraill y wladwriaeth**

Os cawsoch unrhyw un o'r canlynol, adiwch hwy at ei gilydd a rhowch y cyfanswm ym mlwch 4.4:

- Lwfans Profedigaeth neu bensiwn gweddw
- Lwfans Rhiant Gweddw neu Lwfans Mam Weddw ac eithrio unrhyw gynnydd mewn lwfans plentyn dibynnol
- Pensiwn Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol ac eithrio Lwfans Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol i Blentyn
- Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chefnogaeth ar sail cyfraniadau (gallwch anwybyddu Lwfans Cyflogaeth a Chefnogaeth sy'n seiliedig ar incwm gan nad yw'n drethadwy). Os oeddech yn ei hawlio ar 5 Ebrill 2009, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn rhoi P60 i chi. Rhowch y swm trethadwy ar eich Ffurflen Dreth. Os peidioch â'i hawlio yn ystod y flwyddyn, byddwch wedi cael P45 sy'n rhoi'r swm trethadwy. Os oedd gennych fwy nag un hawliad yn ystod y flwyddyn, adiwch y symiau trethadwy at ei gilydd
- Lwfans Gofalwr. Dylech gynnwys unrhyw swm ar gyfer oedolyn dibynnol ond anwybyddwch unrhyw swm ar gyfer plentyn dibynnol
- Tâl Salwch Statudol neu Dâl Mamolaeth, Tâl Tadolaeth neu Dâl Mabswysiadu Statudol, ond dim ond os gwnaethom ni, sef Cyllid a Thollau EM, eu talu i chi (nid eich cyflogwr). Anwybyddwch Lwfans Mamolaeth gan nad yw'n drethadwy
- Budd-dal Analluogrwydd Trethadwy (nid yw'n drethadwy bob amser) – bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn rhoi P60 i chi os oeddech yn ei hawlio ar 5 Ebrill 2009. Os peidioch â'i hawlio cyn 5 Ebrill cewch P45. Bydd y ffurflenni hyn yn rhoi ffigur ar gyfer y 'dreth a ddidynnwyd' i'w roi ym mlwch 4.5.

Llog, difidendau a buddsoddiadau eraill y DU

Mae'n rhaid i chi nodi ar eich Ffurflen Dreth y llog a gawsoch o

- banciau a chymdeithasau adeiladu (gan gynnwys cyfrifon Rhyngrwyd) – cyfrifon cyfredol a chadw
- Stociau'r Llywodraeth – gwarantau gilt neu giltiau (ond darllenwch y nodyn ar wahân isod ynglŷn â giltiau
- Ymddiriedolaethau uned awdurdodedig a chwmnïau buddsoddi penagored yn y DU
- Cynhyrchion Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol pan gaiff treth ei didynnu cyn i chi ei gael (Bondiau First Option a Bondiau Cynilion Cyfradd Sefydlog)
- Cynhyrchion Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol pan ni chaiff treth ei didynnu, er enghraifft Bondiau Incwm Gwarantedig i Bensiynwyr neu Gyfrif Cynilo 'Easy Access' ond dylech eithrio
  - llog cronedig ar Dystysgrifau Cynilion gan gynnwys tystysgrifau wedi'u cysylltu â mynegai
  - llog ar Fondiau Bonws ar gyfer plant.

(Gallwch hefyd gynnwys eich incwm o flwydd-dal bywyd a brynwyd gennych ym mlychau 5.1 neu 5.2 fel y bo'n briodol. Dim ond rhan o'r taliad a gewch fydd yn incwm – gwiriwch dystysgrif y taliad – peidiwch â rhoi gweddill y taliad ar y Ffurflen Dreth hon. Nid yw blwydd-dal bywyd a brynwyd yn flwydd-dal ymddeol, nac ychwaith yn ganlyniad cyfraniadau a dalwyd gennych i gynllun pensiwn personol.)

Os rhoddoch roddion i unrhyw un o'ch plant sy'n iau na 18, ac mae'r rhoddion hynny yn cynhyrchu incwm o £100 neu fwy (cyn treth) mewn blwyddyn dreth, mae'n rhaid i chi gynnwys yr incwm cyfan yn eich Ffurflen Dreth.

Dylech eithrio llog (neu ddifidendau a bonysau) o fuddsoddiadau sydd wedi'u heithrio rhag treth, er enghraifft, ISA a PEP oni bai fod rhywbeth wedi digwydd i beri i'r incwm fod yn drethadwy.

Cysylltwch â ni os nad ydych yn siŵr a ddylech roi eich llog ar y Ffurflen Dreth hon.

Os oes gennych fuddsoddiadau gyda banc neu gymdeithas adeiladu sydd, yn lle talu llog, yn talu mewn ffurf arall (gallai'r banc neu'r gymdeithas adeiladu alw'r taliad yn daliad drwy ariannu amgen neu daliad rhannu elw) dylech gynnwys y taliad a gewch ym mlwch 5.1 os cafodd ei drethu neu flwch 5.2 fel arall.

Giltiau

Gallwch ddewis derbyn eich llog heb ddidynnu treth. Os gwnewch hynny, dylech gynnwys y llog ym mlwch 5.2 ac nid blwch 5.1.

A oedd eich daliad mewn giltiau (a welir ar eich talebau treth) yn y ddwy flynedd a ddaeth i ben 5 Ebrill 2009 yn fwy na £5,000 pob blwyddyn? Os oedd yn fwy, ac os ydych wedi prynu neu wedi gwerthu giltiau yn y flwyddyn i 5 Ebrill 2009, ni allwch ddefnyddio'r Ffurflen Dreth hon; dylech gysylltu â ni.

5.1 **Swm net a dalwyd gan fanc neu gymdeithas adeiladu ac ati – ar ôl iddynt ddidynnu treth**
Byddwch fel arfer yn cael llog ac ati, ar ôl didynnu treth (ar 20%) gan y talwr, er enghraifft y banc neu'r gymdeithas adeiladu neu reolwr yr ymddiriedolaeth uned. Yr hyn sydd ei angen ym mlwch 5.1 yw'r swm net – hynny yw, y llog ac ati ar ôl didynnu treth – y swm mewn gwirionedd y cynyddodd eich arian yn y cyfrif.

Gall cyfriflenni banc a llyfrau cyfrif cymdeithasau adeiladu ddisgrifio hyn mewn ffyrdd gwahanol. Gallai eich cyfriflenni ddangos tri swm – 'llog gros', 'treth a ddidynnwyd' a 'llog net'. Os felly, mae'n fater syml o drosglwyddo ffigur y llog net i flwch 5.1. Ond bydd rhai talwyr yn dangos y llog gros yn unig ynghyd â'r dreth a ddidynnwyd. Y llog net yw'r ffigur

Cysylltwch

â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

a gewch drwy dynnu'r ffigur ar gyfer treth a ddidynnwyd o'r llog gros. Bydd rhai talwyr yn dangos y 'llog net' yn unig ar eich cyfriflen, felly'r unig beth sy'n rhaid i chi ei wneud yw copïo'r ffigur hwnnw i flwch 5.1

Os oes gennych fwy nag un cyfrif ychwanegwch yr holl ffigurau llog net ac ati at ei gilydd a rhowch y cyfanswm ym mlwch 5.1.

5.2 **Os cewch log y DU ac ati sydd heb ei drethu o gwbl**

Os oes gennych gyfrif sy'n talu llog ac ati heb ddidynnu treth – 'cyfrif sy'n talu gros' – rhowch y swm gros ym mlwch 5.2. (Gall pawb gael swm o incwm sy'n rhydd o dreth – yr isafswm yw £6,035. Os ydy cyfanswm eich incwm yn is na hynny gallwch gofrestru i gael eich llog ac ati wedi'i dalu heb ddidynnu treth – ffoniwch y Llinell Gyswllt Gymraeg a gofynnwch am ffurflen R85.) Defnyddiwch flwch 5.2 hefyd ar gyfer llog o stociau'r llywodraeth pan fyddwch wedi dewis cael y llog wedi'i dalu i chi heb ddidynnu treth.

5.3 **Difidendau cwmnïau**

Bydd pob taleb ddifidend yn dangos faint o gyfranddaliadau sydd gennych yn y cwmni ac ati, y gyfradd ddifidend, y credyd treth a'r difidend sy'n daladwy. Cewch yr wybodaeth hon hyd yn oed os telir eich difidend yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc neu drwy eich brocer buddsoddi. Yr unig ffigur sy'n rhaid i chi ei roi ar eich Ffurflen Dreth yw cyfanswm yr holl daliadau difidendau (heb gynnwys credydau treth).

Cysylltwch â ni os cawsoch ddifidendau o gyfranddaliadau a gaffaelwyd drwy gynlluniau cyfranddaliadau ar gyfer cyflogeion ac os nad ydych yn sicr beth i'w rhoi ar eich Ffurflen Dreth, neu os ydych wedi eich effeithio gan y rheolau ar gyfer 'cwmni gwasanaeth' (byddwch yn gwybod os cawsoch eich effeithio).

Os cawsoch ddifidendau tramor (hyd at £300) pan ddidynnwyd treth dramor ohonynt gallwch eu cynnwys ym mlwch 5.3. Dylech gynnwys swm y difidendau tramor a gawsoch ar ôl didynnu treth mewn sterling. Rhoddir credyd treth sylfaenol (10%) yn unig i chi pan fyddwn yn prosesu eich Ffurflen Dreth. Os nad ydych yn sicr o effeithiau treth drwy gynnwys difidendau tramor yma, dylech ofyn i ni.

Eiddo yn y DU

6.1 **Incwm**

Os cawsoch incwm o unrhyw dir yn eich meddiant neu ei osod ar brydles, neu eiddo ar osod, rhowch y cyfanswm ym mlwch 6.1. Ond ni allwch ddefnyddio'r Ffurflen Dreth hon os oedd yr incwm yn £15,000 neu ragor, neu os oedd o lety gwyliau wedi'i ddodrefnu. Os oedd, yna cysylltwch â ni.

Eich cartref eich hun

Os ydych yn gosod ystafell wedi ei dodrefnu (neu ystafelloedd) yn eich cartref eich hun (ond nid os defnyddir yr ystafell fel swyddfa) does dim rhaid i chi ddweud wrthym, cyhyd â bod y rhenti a gewch yn llai na £4,250 (£2,125 os ydych yn rhannu'r incwm gyda rhywun arall). Ond os ydy'r rhent a gewch yn fwy na £4,250 gallwch ddewis rhwng

- talu treth dim ond ar y swm sy'n uwch na £4,250 – heb ddidynnu unrhyw dreuliau. Os felly, nodwch y swm sy'n uwch ym mlychau 6.1 a 6.3, neu
- talu treth ar y rhenti sy'n uwch na'r treuliau. Os felly, nodwch gyfanswm y rhenti ym mlwch 6.1, y treuliau ym mlwch 6.2 a'r elw ym mlwch 6.3.

6.2 **Treuliau caniataol at ddibenion treth**

Yn gyffredinol gallwch wneud cais am y gost i chi o osod eiddo, tir ac ati. Mae'r Daflen Waith ar dudalen STRG 15 yn rhestru'r mathau o dreuliau mwyaf cyffredin. Dylech eithrio y gyfran sy'n cynrychioli eich defnydd personol. Peidiwch â gwneud cais am dreuliau personol arall, neu unrhyw gostau cyfalaf.

Taflen waith	
Rhenti, treth gyngor, yswiriant, rhent tir a dalwch	£
Atgyweiriadau a chynnal a chadw'r eiddo	£
Taliadau ariannol gan gynnwys llog ar fenthyciadau	£
Cyfreithiol a phroffesiynol†	£
Cost unrhyw wasanaethau a ddarparwch, fel glanhau	£
10% traul (10% y rhenti net - hynny yw, ar ôl treth gyngor a threth ddŵr a delir gan landlord - llety a ddodrefnwyd)	£
Eraill, er enghraifft hysbysebu, deunyddiau swyddfa	£
Cyfanswm *copïwch i flwch 6.2*	£

†Dylech eithrio'r treuliau cyfreithiol a phroffesiynol pan osodir yr eiddo am y tro cyntaf, os ydy am gyfnod o fwy nag un flwyddyn: mae hyn yn cynnwys y costau cyfreithiol o lunio prydles, neu i gael caniatâd cynllunio. Fodd bynnag, gallwch hawlio cost adnewyddu prydles.

6.3 **Elw**

Os ydy'ch treuliau yn llai na'ch incwm, byddwch wedi gwneud elw. Nodwch y ffigur sydd ym mlwch 6.1 llai'r ffigur ym mlwch 6.2 ym mlwch 6.3.

6.4 **Colled**

Os ydy'ch treuliau yn fwy na'ch incwm, byddwch wedi gwneud colled. Nodwch y ffigur sydd ym mlwch 6.2 llai'r ffigur ym mlwch 6.1 ym mlwch 6.4.

Os ydych am gael rhagor o wybodaeth, gofynnwch y Llinell Gyswllt am y *Nodiadau ar eiddo yn y DU* am y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2009 (ond anwybyddwch unrhyw rifau blychau yn y nodiadau hynny).

Os ydych am wneud cais am lwfansau cyfalaf (gan gynnwys Lwfans Arbed Ynni ar gyfer landlordiaid), ni allwch ddefnyddio'r ffurflen hon; dylech gysylltu â ni.

6.5 **Colledion tir ac eiddo yn y DU a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach**

Byddwn yn didynnu colledion a ddygwyd ymlaen o'r elw (blwch 6.3) y byddwn yn ei drethu. Ond os gwnaethoch golled (blwch 6.4) dylech ei hychwanegu at y colledion a ddygwyd ymlaen sy'n bodoli eisoes a nodi'r cyfanswm yn y blwch hwn ar Ffurflen Dreth y **flwyddyn nesaf**.

Incwm arall y DU ar gyfer 2008-09

Defnyddiwch flychau 7.1 i 7.3 ar gyfer incwm trethadwy arall a gawsoch yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill. Er enghraifft, gallech roi enillion achlysurol nad ydych wedi eu cynnwys ym mlwch 2.2, neu gomisiwn neu gil-dyrnau.

Peidiwch â defnyddio'r adran hon ar gyfer y mathau o incwm a restrwyd yn 'Pwy na all ddefnyddio'r Ffurflen Dreth Fer?' ar dudalen STRG 2 y canllaw hwn.

Rhodd Cymorth

Mae Rhodd Cymorth yn rhyddhad treth ar gyfer rhoddion arian parod i elusennau yn y DU a Chlybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol. Bydd yr elusen neu'r clwb yn gofyn i chi am ddatganiad eich bod yn talu Treth Incwm y DU - wedyn gallan nhw hawlio'r dreth yn ôl oddi wrthym ni. Os na fyddwch wedi talu treth sy'n gyfwerth â'r swm y bydd yr elusen neu'r clwb yn ei hawlio'n ôl ar eich rhodd, byddwn yn gofyn i chi dalu'r gwahaniaeth. Nid yw Rhodd Cymorth yn gymwys i roddion ar ffurf cyfranddaliadau neu eiddo.

Os buoch yn gwneud taliadau i elusennau o dan weithred cyfamod ers cyn 6 Ebrill 2000, bydd y taliadau hynny yn cael eu cynnwys o fewn Rhodd Cymorth yn awtomatig. Os trefnwyd y weithred ers 6 Ebrill 2000 dylai'r elusen fod wedi gofyn i chi am ddatganiad eich bod yn talu Treth Incwm y DU.

Os talwch dreth ar 40% bydd gennych hawl i ryddhad treth - byddwn yn cyfrifo hyn pan fyddwn yn anfon cyfrifiad treth atoch.

Os ydych yn 65 neu'n hŷn, gallai eich taliadau Rhodd Cymorth ostwng eich bil treth. Os ydych am gael rhagor o wybodaeth, yna cysylltwch â ni.

Cysylltwch

â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

8.1 **Taliadau Rhodd Cymorth a wnaed yn y flwyddyn i 5 Ebrill 2009**

Rhowch gyfanswm y taliadau Rhodd Cymorth a dalwyd gennych mewn gwirionedd yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2009. Os gofynnoch i ni drin rhan o'ch taliadau Rhodd Cymorth am 2008-09 fel petaech wedi'u talu yn 2007-08, mae'n rhaid i chi ddidynnu'r taliadau hynny o'r ffigur rydych nawr yn ei roi ym mlwch 8.1.

- os ydych am drin taliadau 2009-10 fel petaech wedi eu talu yn 2008-09
- os rhoddoch gyfranddaliadau i elusen, neu
- os rhoddoch eiddo i elusen

ni allwch ddefnyddio'r ffurflen dreth hon. Dylech ein ffonio ni.

Peidiwch â chynnwys unrhyw daliadau a wnewch o dan gynllun Rhoi trwy'r Gyflogres, ym mlwch 8.1. (Didynnir y taliadau hynny o'ch cyflog cyn i'ch cyflogwr ei drethu).

8.2 **Cyfanswm unrhyw daliadau Rhodd Cymorth 'unigol'**

Er mwyn ein cynorthwyo i roi cod treth TWE (os oes un gennych) cywir i chi, nodwch unrhyw daliadau Rhodd Cymorth 'unigol' a gynhwyswyd ym mlwch 8.1, ym mlwch 8.2.

Cyfrannu at gynlluniau pensiwn cofrestredig neu gynlluniau pensiwn tramor.

Os ydych yn unigolyn yn y DU sy'n cronni buddiannau mewn cynllun pensiwn cofrestredig, gallwch fel arfer gael rhyddhad treth ar y cyfraniadau a dalwch i'r cynllun hwnnw. Rhaid

- i chi gael enillion trethadwy yn y DU, er enghraifft incwm o gyflogaeth neu elw o hunangyflogaeth
- i chi breswylio yn y DU am rywfaint o'r amser yn ystod y flwyddyn dreth
- eich bod wedi preswylio yn y DU ar ryw adeg yn y bum mlynedd flaenorol a phan wnaethoch ymuno â'r cynllun pensiwn, neu
- bod gennych enillion o gyflogaeth dramor o dan y Goron sy'n drethadwy yn y DU (neu mae enillion gan eich priod).

Mae'r rhyddhad treth ar gyfer y flwyddyn pan daloch chi (neu rywun arall ar eich rhan, heblaw eich cyflogwr) y cyfraniadau. Ni roddir rhyddhad treth am gyfraniadau a delir ar ôl i chi gyrraedd 75 mlwydd oed.

Efallai bod gennych bolisi yswiriant bywyd yn eich cynllun pensiwn cofrestredig. Nid yw pob polisi yswiriant bywyd yn gymwys am ryddhad treth. Bydd darparwr eich pensiwn yn gallu dweud wrthych os nad yw eich taliadau yn gymwys am ryddhad treth. Peidiwch â nodi unrhyw beth ar y Ffurflen Dreth os nad yw eich taliadau yn gymwys am ryddhad treth.

Am fanylion pellach gofynnwch am Daflen Gymorth 347 *Personal term assurance contributions to a registered pension scheme.*

Terfynau rhyddhad

Yr uchafswm y gallwch hawlio rhyddhad ar ei gyfer yw naill ai:

- £3,600, neu
- swm eich enillion yn y DU a allai gael ei drethu yn y flwyddyn.

Os ydy'ch enillion yn y DU yn llai na £3,600 ond rydych yn cyfrannu mwy, yna gellir rhoi rhyddhad treth ar gyfraniadau hyd at y terfyn o £3,600 os ydy'r cynllun pensiwn yn gynllun 'Rhyddhad wrth y ffynhonnell'.

Eich cynllun pensiwn sy'n dewis sut fyddwch yn cael rhyddhad treth; gellir gweithredu mewn tair ffordd - trefniant cyflog net, rhyddhad wrth y ffynhonnell a thaliadau gros.

Taliadau a ddidynnwyd o'ch cyflog cyn ei drethu (trefniadau cyflog net)
Os caiff eich cyfraniadau i gynllun pensiwn galwedigaethol eich cyflogwr (neu unrhyw Gyfraniadau Ychwanegol Gwirfoddol cysylltiedig) eu didynnu o'ch cyflog cyn iddo gael ei drethu, byddwch eisoes wedi cael eich rhyddhad treth. Peidiwch â nodi unrhyw beth ar y Ffurflen Dreth hon.

9.1 **Taliadau i gynlluniau pensiwn cofrestredig pan hawlir rhyddhad treth ar y gyfradd sylfaenol gan ddarparwr eich pensiwn – 'rhyddhad wrth y ffynhonnell'**
O dan drefniant 'Rhyddhad wrth y ffynhonnell', caiff cyfraniadau i gynllun pensiwn personol (gan gynnwys pensiwn cyfranddeiliad) eu gwneud ar ôl caniatáu rhyddhad treth ar y gyfradd sylfaenol (20% yn 2008-09). Bydd gweinyddwr y cynllun wedi hawlio rhyddhad treth ar eich rhan ac wedi ei ychwanegu at eich cronfa bensiwn. Byddwch wedi gwneud taliad 'net'. Dylech nodi'r swm gros ym mlwch 9.1; hynny yw, y swm a daloch yn ogystal â'r rhyddhad treth. Gall y symiau hyn fod ar unrhyw dystysgrif pensiwn neu daleb a gewch gan y gweinyddwr, neu gallwch ei gyfrifo drwy rannu'r swm a dalwyd gennych mewn gwirionedd gyda 80 a lluosi'r canlyniad gyda 100.

Enghraifft

Taloch £800 i'ch cronfa bensiwn. Dylech nodi £1,000 ym mlwch 9.1, (£800 wedi ei rannu gyda 80 a'i luosi gyda 100), sef eich taliad net yn ogystal â'r rhyddhad treth o £200 (£1,000 ar 20%).

Os talwch dreth ar 40% bydd gennych hawl i ryddhad treth pellach. Byddwn yn ei gyfrifo a rhoi'r credyd i chi yn eich cyfrifiad treth.

9.2 **Taliadau gros**
Os talwch gyfraniadau i gynllun pensiwn cofrestredig, ac os na roddir rhyddhad treth ar yr adeg pan dalwch, gallwch hawlio'r rhyddhad drwy nodi'r cyfanswm a dalwyd gennych yn y flwyddyn dreth ym mlwch 9.2. Byddwn yn cyfrifo'r rhyddhad treth a rhoi credyd i chi yn eich cyfrifiad treth.

Gallai hyn ddigwydd:

- pan roedd eich cyfraniadau i gynllun pensiwn eich cyflogwr yn fwy na'ch enillion o'r gyflogaeth honno, neu
- pan roedd eich cyflogwr yn methu â didynnu'r cyfraniadau o'ch cyflog cyn ei drethu (oherwydd efallai gwnaed y taliad yn agos at 5 Ebrill), neu
- pan fo gennych gontract blwydd-dal ymddeol, neu
- pan nad ydych yn gyflogai ond rydych yn aelod o gynllun pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus neu gronfa beilot forol, neu
- pan rydych yn aelod o gynllun pensiwn galwedigaethol ond talwyd y cyfraniadau gan rywun arall ar eich rhan yna ni fydd rhyddhad treth wedi ei roi i chi a dylech nodi'r taliad gwirioneddol a wnaed ym mlwch 9.2.

Taliadau i gynllun pensiwn tramor
Os talwch gyfraniadau (rhai sydd heb eu didynnu o'ch cyflog cyn didynnu treth) i gynllun pensiwn tramor nad yw'n gynllun pensiwn cofrestredig yn y DU, efallai y bydd gennych hawl i ryddhad treth. Os ydych yn gymwys i hawlio rhyddhad aelod mudol (migrant member relief), rhyddhad trosiannol cyfatebol neu ryddhad o dan Gytundeb Trethiant Dwbl, nodwch y symiau sy'n gymwys am ryddhad ym mlwch 9.2.

Lwfans Person Dall

Os ydych yn byw yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon a heb eich cofrestru, gallwch hawlio lwfans Person Dall os ydy'ch golwg mor wael fel na allwch wneud unrhyw waith lle mae golwg yn hanfodol – rhowch 'yr Alban' neu 'Gogledd Iwerddon' ym mlwch 10.2.

Lwfans Pâr Priod

Cysylltwch

â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Gallwch hawlio lwfans pâr priod, dim ond os cawsoch chi eich priod neu eich partner sifil eich geni cyn 6 Ebrill 1935 ac rydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil. Os nad yw hwn yn berthnasol i chi, gadewch flychau 11.1 i 11.4 yn wag ac ewch i 'Gorffen eich Ffurflen Dreth'.

Caiff lwfans pâr priod ei hawlio gan:

- y dyn priod ar gyfer priodasau cyn 5 Rhagfyr 2005, neu
- y dyn priod, y priod neu'r partner sifil gyda'r incwm uchaf ar gyfer priodasau ar ôl 5 Rhagfyr 2005.

Mae'r lwfans yn cynnwys dwy ran:

- isafswm (sy'n werth hyd at £254) yn ogystal â
- swm ar sail oedran (caiff y swm hwn ei ostwng os bydd yr incwm yn uwch na £21,800) yn ddibynnol ar
  - incwm y gŵr, ar gyfer priodasau cyn 5 Rhagfyr 2005, neu
  - y person sydd â'r incwm uchaf, ar gyfer priodasau a phartneriaethau sifil a ffurfiwyd ar neu ar ôl 5 Rhagfyr 2005).

Os bydd naill ai chi neu eich priod neu eich partner sifil wedi gofyn yn flaenorol i roi **hanner** 'isafswm' y lwfans pâr priod i bob un ohonoch, yna ni allwch gwblhau'r ffurflen hon. Dylech gysylltu â ni i ddweud pam na allwch ddefnyddio'r Ffurflen Dreth Fer a byddwn yn anfon atoch y Ffurflen Dreth lawn.

11.1 **I hawlio'r lwfans llawn nodwch enw cyntaf eich priod neu eich partner sifil**
Os gwnaethoch briodi cyn 5 Rhagfyr 2005 ac rydych yn ddyn priod, nodwch enw cyntaf eich gwraig yn y blwch hwn.

Os gwnaethoch briodi neu ffurfio partneriaeth sifil ar ôl 5 Rhagfyr 2005 a chi yw'r priod neu'r partner sifil gyda'r incwm uchaf, nodwch enw cyntaf eich priod neu eich partner sifil yn y blwch hwn.

Os ydych yn wraig, neu briod neu bartner sifil gyda'r incwm isaf, gadewch y blwch hwn yn wag.

11.2 **Rhowch 'X' yn y blwch os ydych fel pâr priod wedi gofyn i ni eisoes i roi'r isafswm llawn i chi, neu eich priod neu eich partner sifil**
Rhowch 'X' yn y blwch hwn os ydych yn cwblhau'r ffurflen hon fel dyn priod a briododd cyn 5 Rhagfyr 2005, ac rydych wedi dewis ar y cyd (cyn 6 Ebrill 2008) i drosglwyddo 'isafswm' llawn y lwfans pâr priod i'ch gwraig.

Os gwnaethoch briodi neu ffurfio partneriaeth sifil ar ôl 5 Rhagfyr 2005 ac rydych yn cwblhau'r ffurflen hon fel dyn priod neu fel y priod neu'r partner sifil gyda'r incwm uchaf ac rydych wedi dewis ar y cyd (cyn 6 Ebrill 2008 neu os gwnaethoch briodi neu ffurfio partneriaeth sifil yn y flwyddyn i 5 Ebrill 2009, cyn 6 Ebrill 2009) i drosglwyddo 'isafswm' llawn y lwfans pâr priod i'ch priod neu eich partner sifil, rhowch 'X' yn y blwch hwn.

Os ydych yn cwblhau'r ffurflen hon fel gwraig briod neu fel y priod neu'r partner sifil gyda'r incwm isaf, ac rydych wedi dewis ar y cyd i drosglwyddo 'isafswm' y lwfans pâr priod i chi, rhowch 'X' yn y blwch.

Cysylltwch â ni os ydych am newid y ffordd y caiff yr isafswm ei ddyrannu,

11.3 **Dyddiad geni eich priod neu eich partner sifil**
Os ydy eich priod neu eich partner sifil yn hŷn na chi, nodwch ei ddyddiad/dyddiad geni yn y blwch hwn. Fel arall gadewch y blwch hwn yn wag.

11.4 **Dyddiad y briodas neu ddyddiad ffurfio'r bartneriaeth sifil – *os ydy hwn rhwng 6 Ebrill 2008 a 5 Ebrill 2009***
Os gwnaethoch briodi neu ffurfio partneriaeth sifil yn y cyfnod rhwng 6 Ebrill 2008 a 5 Ebrill 2009, nodwch y dyddiad yn y blwch hwn. Caiff y lwfans pâr priod ei ostwng gan $^{1}/_{12}$ am bob mis cyfan cyn y briodas neu cyn ffurfio'r bartneriaeth sifil.

Gorffen eich Ffurflen Dreth

12.1 *i* 12.6 Mae ad-dalu treth a ordalwyd gennych yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc neu'ch cymdeithas adeiladu yn ddiogel ac effeithlon, ond cymerwch ofal wrth gwblhau blychau 12.1 i 12.5, yn arbennig pan fyddwch yn nodi rhif y cyfrif a'r cod didoli (gallai'r ad-daliad fynd ar goll os gwnewch gamgymeriad). Dylech gwblhau blwch 12.4 dim ond os ydych wedi gofyn i ni anfon eich ad-daliad i gymdeithas adeiladu. Nodwch rif eich cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu ym mlwch 12.3. Does dim gwahaniaeth os ydy'r rhif yn dechrau ar ochr chwith neu ochr dde'r blwch, ond dylech sicrhau bod nifer y digidau yr un fath ag ar eich cyfrif. Peidiwch â chynnwys seros ychwanegol.

Fel arfer byddwn yn cario symiau bychain (o dan £10) o dreth a ordalwyd ymlaen i'ch bil treth nesaf – ond os gofynnwch i ni, byddwn hyd yn oed yn ad-dalu symiau bychain. Os ydych wedi gofyn i ni ad-dalu enwebai, anfonir unrhyw ad-daliadau ychwanegol am y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2009 at y person hwnnw, oni bai eich bod yn cysylltu â ni unwaith eto.

Yr unig amser y byddwn yn anfon siec i gyfeiriad eich cartref fydd pan na fydd gennych gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu – sy'n golygu y bydd yn rhaid i chi agor un er mwyn derbyn eich ad-daliad. Mae nifer o gyfrifon syml ar gael bellach, felly ni ddylai fod yn anodd. Os oes angen help arnoch, yna dylech ein ffonio ni. Os bydd treth yn ddyledus i chi ond os nad ydych wedi cwblhau blychau 12.1 i 12.5 ni fyddwn yn gallu eich ad-dalu tan i chi gysylltu â ni ac unrhyw daliad ar gyfrif a dalwyd ond nad yw'n ddyledus bellach.

12.7 Os ydych yn dychwelyd Ffurflen Dreth ddiwygiedig ni fyddwch yn gallu enwebu elusen i dderbyn yr holl neu ran o unrhyw ad-daliad. Os gofynnwch i ni anfon eich ad-daliad i elusen, bydd y swm a anfonwn yn cynnwys unrhyw gredyd arall a oedd gennym ar eich cyfer ar ein cofnodion.

12.12 Rhaid i chi ddychwelyd eich Ffurflen Dreth bapur atom erbyn 31 Hydref 2009 i osgoi cosb. Byddwn yn gwirio eich rhifyddeg ac yna cyfrifo eich bil treth. Byddwn yn anfon cyfrifiad atoch a'i ddilyn â Datganiad. Cewch y ddau cyn 31 Ionawr 2010, sef y dyddiad y bydd unrhyw dreth yn ddyledus. (Os bydd rhaid i chi dalu taliadau ar gyfrif, bydd y taliad cyntaf ar gyfer y flwyddyn i 5 Ebrill 2010 yn ddyledus hefyd erbyn 31 Ionawr 2010. Byddwn yn ei gyfrifo ar eich rhan.)

Os bydd y dreth sydd arnoch ar gyfer 2008-09 yn llai na £2,000 ac os oes gennych god TWE, byddwn yn ceisio casglu'r dreth drwy eich cod treth ar gyfer 2010-11. Rhowch 'X' yn y blwch hwn os nad ydych am i ni gasglu'r swm sy'n ddyledus trwy'r dull hwn.

Os dychwelwch eich Ffurflen Dreth yn hwyr codir cosb awtomatig arnoch o £100. Bydd Ffurflen Dreth bapur yn hwyr os bydd yn ein cyrraedd ar ôl 31 Hydref 2009 a bydd Ffurflen Dreth ar-lein yn hwyr os cyflwynwch ar-lein ar ôl 31 Ionawr 2010. Ar ôl 31 Hydref gallwch gyflwyno eich Ffurflen Dreth ar-lein erbyn 31 Ionawr 2010 ac osgoi cosb, hyd yn oed os byddwn wedi anfon Ffurflen Dreth bapur atoch.

Cysylltwch

12.13

â ni drwy ffonio'r Llinell Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu'r Llinell Gymorth Saesneg ar **0845 9000 444** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk**

Os yw'n debygol y bydd arnoch dreth ar gyfer 2009-10 ar incwm heblaw am enillion o gyflogaeth neu bensiynau

Os ydych wedi cynnwys y mathau canlynol o incwm yn y Ffurflen Dreth hon:

- cynilion neu fuddsoddiadau
- eiddo
- enillion achlysurol, neu
- comisiwn

a disgwyliwch dderbyn incwm o'r fath yn y flwyddyn dreth hon (2009-10) y mae dwy ffordd o dalu'r dreth a fydd yn ddyledus ar gyfer 2009-10.

Gallwn amcangyfrif swm yr incwm rydych yn debygol o gael (ar sail yr hyn sydd ar y Ffurflen Dreth hon) a chyfrifo'r dreth a ddaw yn ddyledus. Gallwn wedyn ei hychwanegu at y dreth y mae eich cyflogwr neu ddarparwr eich pensiwn yn ei chymryd o'ch enillion neu eich pensiwn. Byddwn yn gwneud hyn drwy adolygu eich cod treth TWE fel eich bod yn talu rhywfaint o'r dreth sy'n ddyledus bob to y cewch eich talu. Yn y ffordd hon dylech gael bil treth sy'n llai ar ddiwedd y flwyddyn dreth neu efallai na fydd gennych fwy i'w dalu ar yr incwm hwn.

Os amcangyfrifir y bydd y symiau o incwm yn uwch na £10,000 ni fyddem fel arfer yn diwygio eich cod treth TWE ar gyfer y swm sydd uwchben £10,000 – oni bai eich bod yn dweud wrthym eich bod am dalu'r dreth gyfan yn y ffordd hon.

Os hoffech i ni gasglu eich treth yn y ffordd hon ar gyfer 2009-10, does dim angen i chi wneud unrhyw beth ar hyn o bryd; gadewch flwch 12.13 yn wag. Byddwn yn newid eich cod treth TWE ar gyfer 2009-10 yn awtomatig.

Fel arall, gallwch dalu'r dreth yn uniongyrchol i ni ar ôl i chi gwblhau eich Ffurflen Dreth 2009-10. Bydd rhaid i chi dalu naill ai un taliad erbyn 31 Ionawr 2011, neu mewn rhai amgylchiadau gallwn ofyn i chi dalu dau daliad ar gyfri i gwrdd â'ch bil treth yn y pen draw, un erbyn 31 Ionawr 2010 ac un erbyn 31 Gorffennaf 2010 (gydag unrhyw weddill yn daladwy erbyn 31 Ionawr 2011). Os yw'n well gennych dalu trwy'r dull hwn rhowch 'X' yn y blwch 12.13.

Ewch i **www.hmrc.gov.uk** am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r ddau ddull o dalu treth. Bydd sut y byddwch yn cwblhau blwch 12.13 yn gwrthwneud unrhyw drefniadau blaenorol a wnaethom.

Beth fydd yn digwydd nesaf

Anfonwch eich Ffurflen Dreth Fer wedi'i chwblhau i:
Swyddfa Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Porthmadog
Gwynedd
LL49 9AB
gan ddefnyddio'r amlen a ddarparwyd.

Gallwn wirio eich Ffurflen Dreth yn fanylach yn hwyrach, gan gynnwys ei gwirio yn erbyn unrhyw wybodaeth sydd gennym eisoes (er enghraifft gwybodaeth gan eich cyflogwr, neu eich banc). Os sylweddolwch eich bod wedi nodi rhywbeth yn anghywir neu wedi hepgor unrhyw wybodaeth o'ch Ffurflen Dreth, rhowch wybod i ni ar unwaith. Gwnawn ein gorau i'ch helpu i ddatrys y mater.

Os bydd eich Ffurflen Dreth yn anghywir, ac rydych wedi talu gormod o dreth, byddwn yn eich ad-dalu ynghyd â llog. Os yw'n anghywir ac os nad ydych wedi talu digon o dreth, byddwn yn gofyn i chi am ragor, ynghyd â llog ac o bosib cosbau (ond dim ond os buoch yn dwyllodrus neu'n esgeulus). Gallai rhoi gwybodaeth ffug olygu y gellir eich erlyn hefyd.

Canllaw bras i gyfrifo eich bil treth

Ar y tair tudalen nesaf gwelwch daflen waith a allai roi syniad **bras** o'ch bil treth. Ni chewch wybod i'r geiniog - bydd y cyfrifiad a anfonwn atoch ar ôl i ni edrych ar eich Ffurflen Dreth yn gwneud hynny.

Gallwch ddefnyddio'r daflen waith i baratoi eich hun ar gyfer ein cyfrifiad o'ch bil treth.

Os dychwelwch eich Ffurflen Dreth **bapur** ar ôl y dyddiad cau ar 31 Hydref (ond cyn 31 Ionawr), ni fydd gennym ddigon o amser i edrych drosti ac anfon cyfrifiad cyn bod unrhyw dreth yn ddyledus ar 31 Ionawr 2010. Felly, dylech ddefnyddio'r Daflen Waith i gyfrifo p'un a oes unrhyw dreth i'w thalu a dylech sicrhau fod eich taliad yn ein cyrraedd erbyn 31 Ionawr 2010.

Gair o rybudd - gallai defnyddio'r daflen waith hon arwain at fil treth sy'n rhy uchel:

- os ydych dros 65 oed gydag incwm sy'n uwch na £21,800 - efallai na fydd yn rhoi'r lwfansau treth personol sy'n ddyledus i chi
- os ydych wedi hawlio'r Lwfans Pâr Priod - caiff eich bil treth ei ostwng gan isafswm o £254.

A gallai arwain at fil treth sy'n rhy isel

- os cafodd treth a dandalwyd mewn blwyddyn gynharach ei chasglu drwy eich cod treth TWE ar gyfer 2008-09
- os dechreusoch weithio i chi eich hun ar ôl 5 Ebrill 2006, neu os gwnaethoch beidio â gweithio i chi eich hun cyn 6 Ebrill 2009.

Os bydd angen help arnoch gyda'r cyfrifiad, neu os dychwelwch eich Ffurflen Dreth ar ôl 31 Hydref ac rydych yn pryderu oherwydd eich bod heb glywed oddi wrthym mewn da bryd, yna dylech ein ffonio ni.

Taflen waith

Incwm

Cyfanswm o bob cyflogaeth
blwch 2.2 + blwch 2.4 llai blwch 2.5 W1 £

Elw o hunangyflogaeth
blwch 3.6 + blwch 3.10 llai blwch 3.12 W2 £

Elw o Eiddo yn y DU
blwch 6.3 llai blwch 6.5 W3 £

Pensiynau'r DU, budd-daliadau'r wladwriaeth ac incwm arall
blwch 4.1 + blwch 4.2 + blwch 4.4 + blwch 7.1 W4 £

Cyfanswm y cyflog, pensiynau, elw ac ati

W1 + W2 + W3 + W4 W5 £

Blwch 5.1 x 10 wedi ei rannu ag 8 W6 £

Blwch 5.2 W7 £

W5 + W6 + W7 W8 £

Lwfansau ac ati

Taliadau i gontract blwydd-dal ymddeol *blwch 9.2* W9 £

Lwfansau personol W10 £ 6,035

Os ydych yn 65 oed neu'n hŷn, gweler y nodyn ar yr ochr W11 £

Lwfans person dall *£1,800* W12 £

Cyfanswm y lwfansau ac ati

W9 + W10 + W11 + W12 W13 £

W8 llai W13 W14 £

Cyfrifo'r dreth

Yr uchafswm y gellir ei drethu ar y gyfradd sylfaenol (20%) yw £34,800 + (blwch 8.1 x 100 wedi'i rannu â 80) + blwch 9.1 W15 £

Codir treth ar unrhyw incwm trethadwy uwchben W15 ar gyfraddau uwch

Y lleiaf o W14 neu W15 W16 £

x 20% = W17 £

Os ydy W15 yn fwy na W14 nodwch sero ym mlychau W18 a W19

W14 llai W16 W18 £

x 40% = W19 £

A gawsoch eich geni cyn 6 Ebrill 1944 ac a oedd eich incwm yn is na £21,800?

Os oedd cyfanswm yr incwm a gawsoch (blwch W8 + (blwch 5.3 x 10 a'i rhannu â 9)) yn llai na £21,800 defnyddiwch y tabl isod i gyfrifo'r swm i'w rhoi yn W11

Eich dyddiad geni	Swm i'w rhoi yn W11
Ar ôl 5 Ebrill 1944	0
Rhwng 6 Ebrill 1934 a 5 Ebrill 1944	2,995
Cyn 6 Ebrill 1934	3,145

Rhybudd

Os ydy W5 llai W13 yn llai na £2,320, ac mae gennyrch swm yn naill ai blwch W6 neu flwch W7, yna ni ellir dibynnu ar yr ateb a roddir gan y daflen waith hon

Nodyn ar gyfer blychau W14 i W33

Peidiwch â defnyddio rhifau minws. Os bydd y cyfrifiad yn rhoi rhif minws, yna newidiwch ef i sero.

Nodyn ar gyfer blychau W14 i W33

Peidiwch â defnyddio rhifau minws. Os bydd y cyfrifiad yn rhoi rhif minws, yna newidiwch ef i sero.

Cyfrifwch i weld a oes treth ar y gyfradd uwch yn ddyledus ar ddifidendau

Blwch 5.3 x 10 wedi'i rannu â 9 W20 £

W14 + W20 W21 £

W21 llai W15 W22 £

Y lleiaf o W20 neu W22 W23 £

x 22.5% = W24 £

Y dreth incwm sy'n ddyledus
W17 + W19 + W24 W25 £

plws, os ydych yn hunangyflogedig, cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 (CYG) W2 llai £5,435 W26 £

x 8% = W27 £

Cyfanswm y dreth incwm a CYG Dosbarth 4 sy'n ddyledus
W25 + W27 W28 £

Treth Enillion Cyfalaf
Enillion trethadwy ar ôl didynnu'r swm blynyddol a eithrir o flwch 8 o dudalennau *Crynodeb o'r Enillion Cyfalaf* W29 £

x 18% = W30 £

Cyfanswm y dreth incwm, Enillion Cyfalaf a CYG Dosbarth 4 sy'n ddyledus
W28 + W30 W31 £

llai cyfanswm y dreth a ddidynnwyd
blychau 2.3 + 3.13 + 4.3 + 4.5 + 7.2 + (W6 x 20%) W32 £

Cyfanswm y dreth a CYG Dosbarth 4
W31 llai W32 W33 £

Yr hyn ddylech dalu erbyn 31 Ionawr 2010

Os ydy W32 yn fwy na W31 ni fydd yn rhaid i chi dalu unrhyw beth erbyn 31 Ionawr ac efallai y bydd ad-daliad yn ddyledus i chi. Fel arall, bydd yn rhaid i chi dalu'r swm yn W33 er mwyn talu eich bil treth ar gyfer 2008-09, ac efallai y bydd rhaid i chi dalu ar gyfrif er mwyn talu eich bil treth ar gyfer 2009-10.

Os ydy W28 llai W32 yn fwy na £1,000, ac mae W28 x 80% yn fwy na W32, bydd taliad ar gyfrif yn ddyledus. Mae'r taliad ar gyfrif yn un hanner W28 llai W32. Ychwanegwch hwn at y dreth sy'n ddyledus ar gyfer 2008-09 (W33) a thalwch y cyfanswm erbyn 31 Ionawr.

Gwybodaeth bellach

Os oes gennych gŵyn

Am wybodaeth ynglŷn â'n gweithdrefnau cwyno ewch i **www.hmrc.gov.uk** a dewiswch *Contact us* ac yna ewch i *Complaints*

Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Deddf Diogelu Data

Mae Cyllid a Thollau EM yn Rheolydd Data o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a bennir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys asesu a chasglu treth a thollau, talu budd-daliadau ac atal a chanfod troseddau, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw un o'r dibenion hynny.

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill, neu efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth iddynt hwy. Os byddwn yn gwneud hyn, fe fydd yn ôl yr hyn y mae'r gyfraith yn ei chaniatáu yn unig, er mwyn:

- gwirio cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- gwarchod arian cyhoeddus.

Efallai y byddwn yn cymharu'r wybodaeth a dderbyniwn amdanoch â'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a roddwyd gennych chi, yn ogystal â chan eraill, megis adrannau neu asiantaethau eraill y llywodraeth ac awdurdodau treth a thollau tramor. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw un y tu allan i Gyllid a Thollau EM oni bai bod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Am fwy o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk** a defnyddiwch y cyfleuster *Chwilio* i ddod o hyd i'r adran *Deddf Diogelu Data*.

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.

Cyhoeddwyd gan
Uned dosbarthu gwybodaeth i gwsmeriaid
Rhagfyr 2008 © Hawlfraint y Goron 2009

CThEM 12/08 L20699

Cyllid & Tollau EM